**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**3 Mehefin 2013**

# GWAITH ARCHWILIO PERFFORMIAD A FFIOEDD AR GYFER 2013-14

**Adroddiad gan Lisa Williams, Swyddfa Archwilio Cymru**

## DIBEN YR ADRODDIAD

1 Cyflwyno gwaith archwilio perfformiad a ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2013-14 i'r Aelodau.

## CEFNDIR

2 Mae'r llythyr atodol yn amlinellu y gwaith sydd i'w gyflawni gan ac ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), Deddf Llywodraeth Leol 1999, a Rhannau 2 a 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

## GWYBODAETH

3 Yn ychwanegol i'r asesiad corfforaethol a fydd yn adolygu swyddogaeth adnoddau dynol y Gwasanaeth, bydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn ymgymryd â'r gwaith archwilio perfformiad canlynol:

- archwiliad 'Cynllun Gwella'
- archwiliad 'Asesiad o Berfformiad'
- adolygiad o ansawdd data
- astudiaeth wella.

4 Cyfanswm dangosol ffi archwilio perfformiad am y flwyddyn yw £20,684. Fodd bynnag, os canfyddir bod angen gwneud gwaith ychwanegol, gellir codi ffi ychwanegol am hyn.

## ARGYMHELLIAD

5 Argymhellir fod Aelodau yn nodi cynnwys y llythyr atodol.